



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus  
**Torfaen**  
Public Services Board

---



## Asesiad Lles Torfaen Crynodeb Gweithredol

**Rhagfyr 2016**

# RHAGAIR

Mae'r asesiad hwn o les Torfaen mewn dwy ran: crynodeb gweithredol 20 tudalen sy'n gwerthuso (y ddogfen hon) a dogfen ddadansoddi sefyllfaol dechnegol, sy'n fanylach ac yn cynnwys 4 rhan, yn ystyried materion lles ar lefel y Fwrdeistref Sirol a thri phrif anheddiad Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwibrân a'r amrywiol gymunedau ynddynt (a elwir yn ystadegol yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is). Mae hefyd yn ystyried sut mae'r materion a adnabuwyd yn effeithio gwahanol grwpiau o bobl gan ddefnyddio dull seiliedig ar le. Bwriad y dogfennau technegol yw er mwyn cyfeirio atynt yn unig, lle mae angen mwy o fanylion i ddeall perthnasedd, a phwysigrwydd cymharol gwahanol faterion.

Nod y ddogfen hon yw integreiddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau a gwahanol safbwyntiau: yn allweddol ymhlith y rhain yw safbwyntiau trigolion lleol, ynghyd â data a gwybodaeth gymharol. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn gweithio gyda thrigolion i wella lles dros y 25 mlynedd nesaf a thu hwnt, yn ymateb i bolisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a defnyddio adnoddau cenedlaethol a lleol fel y maent ar gael.

## 1.0 CYFLWYNIAD

Mae gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru bwrpas cyffredin i weithio gyda'i gilydd, a chyda chymunedau a phobl Cymru, i sicrhau lles cenedlaethau nawr ac i'r dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru wneud y mwyaf o'u cyfraniad i'r saith nod cenedlaethol ar les. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn gofyn am well proses o gymryd penderfyniadau trwy nodi sut y mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus weithio - gan ddefnyddio dulliau integredig, rhwystrol a chydweithredol, sy'n cymryd yr hirdymor i ystyriaeth ac yn cynnwys ein cymunedau mewn modd ystyrlon.

Mae'r asesiad yn nodi cyflwr lles yn Nhorfaen, ac yn adnabod meysydd allweddol lle mae angen i wasanaethau cyhoeddus weithio ar y cyd, a chydag eraill, i wella lles ac sy'n gweithio gyda, ac yn helpu i adeiladu ar gryfderau ein cymunedau a'r bobl sy'n byw yno.

Mae hefyd yn adeiladu ar ein dealltwriaeth o sut y mae lles yn debygol o ddatblygu i'r dyfodol a sut efallai bod angen i'n dulliau newid, i ymateb mewn ffordd ystyrlon i heriau megis gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd, poblogaeth sy'n

heneiddio, anghydraddoldeb iechyd, bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a newid yn yr hinsawdd.

Bydd sut rydym yn ymateb ar y cyd i'r heriau hirdymor hyn yn effeithio lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r hyn y mae'r asesiad yn ei ddweud wrthym yn glir: mae ein cymunedau yn lleoedd cymhleth a deinamig ac mae gan bob un set wahanol o brofiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, sy'n cael dylanwad ar les y bobl sy'n byw a gweithio yno. Nid yw unrhyw ddwy gymuned yn union yr un fath, a dyna pam y mae mabwysiadu dull "seiliedig ar le" yn ein galluogi i ganolbwyntio ar faterion ardal llai sy'n hanfodol ar gyfer gwella lles.

Mae hyn yn hollbwysig yn Nhorfaen, oherwydd yr amrywiaeth eang a'r gwahaniaethau y mae'r asesiad yn ein hysbysu amdanynt, yn yr amrywiol gymunedau yn Nhorfaen, a phan fyddwn yn eu cymharu gyda chyfartaleddau Cymru.

Neges ganolog yr asesiad lles hwn yw un o anghydraddoldeb sy'n ehangu, a sut mae hyn yn gysylltiedig â, ac yn effeithio ar bron bob agwedd ar les.

Yn rhai o'n cymunedau yn Nhorfaen, gwelwn fod crynodiad fwy neu lai bob agwedd o les gwael yn gysylltiedig â dyfnder ac amrywiaeth anghydraddoldeb incwm rhwng ardaloedd bychain. Mae pobl sy'n byw yn y cymunedau mwy difreintiedig yn cael nifer llai o flynyddoedd o fywyd sy'n rhydd rhag salwch neu anabledd, ac yn debycach o gael bywyd byrrach. At hyn, mae plant o aelwydydd incwm isel yn cael canlyniadau gwaeth yn yr ysgol, gan gynyddu'r perygl y bydd tlodi yn mynd o un genhedlaeth i'r nesaf <sup>[1]</sup>. Lle mae modd newid sefyllfa, mae rheidrwydd moesol i'r gwasanaethau cyhoeddus weithredu ar y cyd, a gyda'n cymunedau, i wella lles.

Mae lles yn lleol yn dilyn patrymau cenedlaethol sydd wedi eu hen sefydlu o ran dosbarthiad o fewn poblogaeth: ardaloedd tlotach a grwpiau (oedran) penodol yw lle mae'r lefelau isaf o les cyffredinol wedi ei ganolbwyntio, gydag ychydig eithriadau.

Gyda'r ardaloedd hyn o amddifadiad, mae rhannau o'n cymunedau hefyd lle mae'r data yn dweud wrthym fod lles yn dda. Hyd yn oed yn yr ardaloedd hyn mae

grwpiau o aelwydydd, a mathau penodol o aelwydydd, sy'n wynebu heriau arwyddocaol i les nawr ac yn y tymor hir, ac felly mae angen i ni ystyried y ffactorau hyn wrth i ni baratoi'r cynllun lles.

Mae deall y ffactorau sy'n cyfrannu tuag at les ynghyd â hyn a'r patrwm ledled y cymunedau yn Nhorfaen, yn rhoi syniad da i ni o'r hyn y mae angen i ni ganolbwyntio arno gyda'n gilydd i wella lles y boblogaeth yn Nhorfaen.

Gan symud ymlaen i'r cyfnod dadansoddi ymateb a chynllunio lles, bydd angen i bartneriaid ystyried beth y maen nhw yn y sefyllfa orau i'w gyflenwi, a pha "fframwaith" rydym yn ei ddefnyddio i drefnu, rheoli a gwella'r rhain. Yn benodol, bydd angen i ni ganolbwyntio ar:

- Ddelio â materion sy'n rhwystro rhannau o'n cymunedau rhag cyrraedd eu potensial llawn: mae rhai o'r materion mwyaf arwyddocaol a amlygwyd gan yr asesiad yn cynnwys tlodi, diffyg cyfleoedd gwaith a rhwystrau i waith, anghydraddoldeb iechyd a bylchau cyrhaeddiad arwyddocaol.
- Cymryd camau i ymateb i her y newid yn yr hinsawdd – gan gynnwys lleihau allyriant carbon a chynllunio ar gyfer effeithiau anochel hinsawdd sy'n newid. Yn y pen draw, os yw'n hamgylchedd yn methu, rydym oll yn methu.
- Amddiffyn a gwella ein hasedau lleol – gan gynnwys adnoddau naturiol, ein heconomi lleol sy'n hanfodol i wytnwch ein cymunedau, a'r "asedau cymdeithasol" sydd yn y pen draw yn gwneud Torfaen yn lle cadarnhaol i fyw ynddo.

## 2.0 CYFRANOGIAD

Gydol y broses asesu hon, mae pobl wedi dweud wrthym sut ddyfodol maent ei eisiau i'w cymunedau. Ceir dadansoddiad llawn o'u barn yn ôl AGEHG yn Atodiad 1 Rhan 1, y dadansoddiad sefyllfaol technegol. Y tri ymateb uchaf ar gyfer pob anheddiad yw:

**Blaenafon** - Dywedodd pobl sy'n byw ym Mlaenafon eu bod eisiau byw mewn cymunedau sy'n **ffyniannus** gyda busnesau **lleol** sy'n cael eu cefnogi'n dda; maent eisiau i'w hardal fod yn **lân a thaclus** fel y medrent deimlo'n falch o fyw yno, ac maent eisiau **amgylchedd diogel** gyda lefelau trosedd isel i'w plant dyfu i fyny ynddo.

**Pont-y-pŵl** - Yn llethol, mae pobl sy'n byw ym Mhont-y-pŵl yn ystyried **diogelwch** fel yr hyn sy'n bwysig i ddyfodol eu cymuned. Maent hwythau eisiau cymunedau **glân a thaclus** lle mae pobl yn cymryd balchder yn eu hardal. Hoffent hefyd weld **cymunedau mwy cydlynol** lle mae pawb yn tynnu ymlaen a lle mae parch rhwng y cenedlaethau a mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau lleol.

**Cwmbrân** - Dywedodd pobl sy'n byw yng Nghwmbrân wrthym eu bod eisiau i'w cymunedau fod yn **ddiogelach** fel nad oes ganddynt ofn cerdded o gwmpas gyda'r nos a lle mae plant yn ddiogel wrth chwarae ar y stryd (roedd traean yr ymatebion gan bobl ifanc). Maent hwythau hefyd eisiau cymuned **lân a thaclus** y mae pobl yn fach ohoni (ac yn cymryd balchder ynnddi): roedd bron hanner yr holl sylwadau ar gynnal a chadw'r ardal gan bobl ifanc. Maent hefyd yn gwerthfawrogi **cymuned gyfeillgar a gofalggar** lle mae cymdogion a'r gymuned yn cadw golwg ar ei gilydd.

Tra na wnaeth y trigolion eu hunain leisio hynny, mae'r data a'r dystiolaeth ehangach yn awgrymu y byddai delio â'r anghydraddoldebau gwaethaf - megis yr amrywiad yn y canlyniadau cymdeithasol-economaidd ac addysgol - yn fwy tebygol o gael eu trin yn gynaliadwy yn y tymor hirach.

Dywedodd ein cymunedau wrthym hefyd beth sy'n dda ynglŷn â'u cymunedau:

**Blaenafon** - teimlad cryf o **ysbryd cymunedol** a theimlad o berthyn gyda phobl yn gofalu am ei gilydd. Mae hefyd lawer o weithgareddau yn y gymuned i bobl hŷn.

**Pont-y-pŵl – mannau gwyrdd**, yn enwedig Parc Pont-y-pŵl a'r amgylchfyd o gwmpas. Mae cymdogaeth dda ac **ysbryd cymunedol** yn gwneud Pont-y-pŵl yn lle gwych i fyw ynddo ac mae llawer o bobl yn **teimlo cysylltiad** â'r ardal lle maent yn byw.

**Cwmbrân** - yr amrywiaeth o **fwynderau lleol** mewn cyrraedd hawdd gan gynnwys canolfannau siopa, lleoedd bwyd, yr orsaf reilffordd a chysylltiadau cludiant cyhoeddus eraill, parcio am ddim ac atyniadau i ymwelwyr. Roedd **cymdogaeth dda** yn uchel ar y rhestr hefyd, gyda chymysgedd o oedrannau yn dweud bod ganddynt gymdogion da y medrent ddibynnu arnynt. Roedd **mannau gwyrdd** hefyd yn dod yn uchel, o fannau chwarae i gefn gwlad hyfryd a mannau agored.

## 3.0 MATERION ALLWEDDOL

Mae'r materion allweddol a ddefnyddir ar gyfer y cyfnod nesaf - y cynllun lles - wedi eu hadnabod trwy adolygu'r wybodaeth sylfaenol yn rhannau 1, 2, 3 a 4 yr asesiad, ein sgysiaiu gyda'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau a mewnbwn gan amrywiol randdeiliaid.

Mae'r adran isod yn nodi lle mae Torfaen yn arwyddocaol wahanol i'r sefyllfa gyffredinol o ran lles, a lle mae ymchwil yn dweud wrthym ei bod yn debygol bod mater arbennig o bwysig: er enghraifft, tra nad oes data lefel Torfaen am brofiadau andwyol mewn plentyndod (sy'n awgrymu angen am ddata gwell a mwy lleol-benodol), mae'r ymchwil cyffredinol a'r patrwm cysylltiadau yn golygu bod hyn yn debygol o fod yn fater pwysig i ddelio ag o.

### 3.1 MATERION CYMDEITHASOL ALLWEDDOL

#### 3.1.1 DIOGELWCH A CHYDLYNIANT CYMUNEDOL

- Teimla dwy ran o dair (65%) o drigolion Torfaen bod pobl yn yr ardal leol o wahanol gefndiroedd yn tynnu ymlaen yn dda. Mae hyn yn llawer is na Chymru (80%) [2].
- Mae cyfradd troseddau casineb a adroddir i Victim Support wedi codi yn Nhorfaen o 2.5 fesul 10,000 o'r boblogaeth yn 2014-15 i 5.4 yn 2015-16 [3].
- Mae cyfraddau byrgleriaeth yn Nhorfaen wedi gostwng yn gyffredinol o 9.1 i 6.5 dros y cyfnod, ond yn uwch o hyd na chyfradd Cymru sydd wedi gostwng o 7.5 i 5.5 [4].
- Mae cyfraddau niwed troseddol a thanau bwriadol wedi gostwng o 13.9 i 12.5, sydd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru, sydd wedi gostwng o 12.2 i 10.0 [4].
- Mae cyfraddau lladrad yn Nhorfaen wedi amrywio dros y 5 mlynedd ac maent ychydig yn uwch ers dechrau'r cyfnod (21.1 yn 2011-12 i 21.4 yn 2015-16), tra bo cyfraddau Cymru wedi gostwng o 23.0 i 18.7 [4].
- Mae cyfraddau trais ar gyfer Torfaen a Chymru wedi bod yn cynyddu dros y cyfnod gyda chyfradd Torfaen yn uwch na chyfradd Cymru, gyda chynnydd o 91.8% o 9.7 i 18.6, tra gwelodd Cymru gynnydd o 56.4% o 10.1 i 15.8 [4].

- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn gostwng ar raddfa debyg yn Nhorfaen a Chymru ers 2011, ond mae lefelau Torfaen yn uwch na Chymru gyda 47.5 o gymharu â Chymru, sy'n 31.9 yn 2015-16 <sup>[4]</sup>.

### 3.1.2 TAI

- Dengys Asesiad Marchnad Dai Leol (AMDL) Torfaen bod amrywiad clir ym marchnadoedd tai presennol rhwng Gogledd a De Torfaen. Mae'n llawer haws a fforddiadwy cael tŷ yn ardaloedd tai is-farchnad Gogledd Torfaen a Phont-y-pŵl gan fod llai o alw am dai fforddiadwy, a hefyd taliadau rhent is yn y sector rhentu preifat <sup>[5]</sup>.
- Yn yr amgylchiadau economaidd lleol presennol, mae angen arwyddocaol am dai fforddiadwy yn y De lle mae prisiau tai a gwerthoedd rhentu nawr yn rhy uchel i lawer o aelwydydd eu fforddio.
- Mae prisiau tai yn Nhorfaen yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Pris tŷ ar gyfartaledd yn Nhorfaen (gwerthu'n unig) yw £143,368, o gymharu â chyfartaledd Cymru o £165,404 <sup>[6]</sup>. Mae'r gymhareb enillion i bris tŷ yn Nhorfaen yn 5:1, sy'n golygu y byddai ymgeisydd sengl yn gorfod gwario pum gwaith ei gyflog i fedru prynu tŷ <sup>[6]</sup>. Mae hyn yn golygu (ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol) bod y rhan fwyaf o bobl sengl yn methu prynu heb help.
- Mae'r Sector Rhentu Preifat yn Nhorfaen yn ganran bach iawn (8.6%) o'r holl aelwydydd o gymharu â chyfartaledd Cymru (14.1%) <sup>[6]</sup>. Yn y gogledd, mae llety rhent preifat yn haws ei gael gan fod llai o alw a phrisiau rhentu is. Yn y de, mae llawer mwy o alw a thaliadau rhent llawer uwch. I deuluoedd sydd ar incwm isel neu sy'n derbyn budd-daliadau, nid yw'r sector rhentu preifat yn y de yn fforddiadwy.
- Gan Dorfaen mae'r 2il gyfran uchaf o aelwydydd rhentu cymdeithasol yng Nghymru (23.6%); cyfartaledd Cymru yw 16.5% <sup>[6]</sup>. Dengys hyn bwysigrwydd cymharol y sector rhentu cyhoeddus o gymharu â'r sector preifat.
- Mae'r galw am dai cymdeithasol yn fwy na'r cyflenwad. Mae ar hyn o bryd 2600 ar y gofrestr dai gyffredinol gyda chyfartaledd o 765 o aelwydydd yn cael eu cartrefu bob blwyddyn (cyfartaledd wedi ei gymryd o 2011 – 2016) <sup>[6]</sup>.

### 3.1.3 AMDDIFADEDD

- Mae amrywiad mawr yn lefel yr amddifadedd a geir ledled Torfaen. Y tair Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen yw Trefethin 1 sy'n dod yn 35, Cwibrân Uchaf 1 sy'n dod 78 a Phontnewydd 1 sy'n dod 138,

allan o gyfanswm o 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru [7].

- Y tair AGEHI lleiaf difreintiedig yw De Llanyrafon sy'n dod 1841, New Inn 3 sy'n dod 1836 a New Inn 4 sy'n dod 1754, allan o gyfanswm o 1909 AGEHI yng Nghymru [7].
- Yn Nhorfaen mae 57% o AGEHI yn dod o fewn y 50% o AGEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 5% o AGEHI yn dod o fewn y 10% o AGEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae 3% o AGEHI yn dod o fewn y 10% o AGEHI lleiaf difreintiedig yng Nghymru [7].
- Mae lefelau is na'r cyfartaledd o amddifadedd yn y categori mwyaf difreintiedig (10% mwyaf difreintiedig), ond lefelau uwch na'r cyfartaledd o amddifadedd yn y categorïau 20%, 30% a 50% difreintiedig [7].

O ben i ben yn Nhorfaen, mae 1 ym mhob 5 aelwyd yn dioddef amddifadedd materol (mae hyn yn cynnwys bwyd, gwres, nwyddau para a biliau tŷ). (Arolwg Cenedlaethol Cymru) [3].

- Yn 15.9%, roedd canran plant sy'n byw ar aelwyd heb waith yn Nhorfaen yn uwch na Chymru, sef 14.6% yn 2014 (Llywodraeth Cymru) [3].
- Mae canran uwch o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel yn Nhorfaen ar 31ain Awst 2013, sef 22.4%, o gymharu â Chymru, 20.5% (Llywodraeth Cymru) [3].
- Mae 17.4% o ddisgyblion ysgol Torfaen â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae cyfraddau uwch o blant sy'n mynychu ysgolion ym Mlaenafon a Phont-y-pŵl sy'n gymwys (20.6% a 18.0% yn eu tro) o gymharu â Chwmbrân (16.5%) [8].

### 3.1.4 IECHYD

Mae disgwyliad einioes, marw cynamserol a disgwyliad bywyd iach oll yn uniongyrchol gysylltiedig â lefelau amddifadedd.

#### Disgwyliad einioes

Nid yw disgwyliad einioes wedi ei ddsbarthu'n deg ar draws Torfaen, yn amrywio dros ardaloedd AGEHG yn y fwrdeistref. Mae rhyw 7 mlynedd o wahaniaeth rhwng disgwyliad einioes pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn Nhorfaen, boed yn fenywod neu'n ddynion - i ddynion, o 74.7 hyd at 81.7 o flynyddoedd ac i fenywod, o 79.4 hyd at 86 o flynyddoedd [9].

#### Marw cynamserol



Cyfradd marw gynamserol yn Nhorfaen o bob achos, wedi ei safoni ar gyfer oedran, yw 349 fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n uwch na Chymru gyfan (320/100,000) <sup>[9]</sup>.

### Disgwyliad Bywyd Iach

Gall dynion Torfaen a enir heddiw ddisgwyl rhyw 63 o flynyddoedd o fywyd iach a menywod rhyw 64. I ddynion a menywod mae disgwyliad bywyd iach arwyddocaol is yn ystadegol na Chymru gyfan (dynion, 65.3 blwyddyn; menywod 66.7 blwyddyn)<sup>[9]</sup>.

Yn Nhorfaen, gall y bobl a enir heddiw yn yr ardaloedd pumed mwyaf difreintiedig ddisgwyl byw rhyw **15 mlynedd yn llai** mewn iechyd da, (dynion 14.8; menywod, 16.5) o gymharu â'r pumed lleiaf difreintiedig yn y Fwrdeistref <sup>[9]</sup>.

### Achosion marwolaeth arweiniol

Yr achosion marwolaeth arweiniol yn Nhorfaen yw canser ac afiechydon cylchdroadol, ac yna afiechydon anadlu. Mae'r rhain yn cael yr effaith fwyaf ar iechyd a lles dinasyddion Torfaen <sup>[10]</sup>.

### IECHYD CYFFREDINOL A SALWCH CYFYNGOL BYWYD CYFAN

Yn ôl Arolwg Iechyd Cymru (2014/15) mae mwy na hanner poblogaeth oedolion Torfaen yn adrodd am gael eu trin ar gyfer salwch meddwl neu gorfforol cronig, ac mae'r mwyafrif yn debygol o fod yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Dengys cofrestri meddygon teulu bod bron i 6,000 o bobl sy'n byw yn Nhorfaen wedi cael diagnosis o ddiabetes. <sup>[58]</sup>.

Mae cyfraddau gordewder yn uwch yn Nhorfaen (27%) na Chymru (23%) ac mae'r cyfraddau wedi bod yn codi'n raddol dros y ddegawd ddiwethaf <sup>[11]</sup>.

Mae dau o bob tri oedolyn yn pwysu gormod neu'n ordew (62%, WHS 2014/15), yn uwch na Chymru (59%) <sup>[11]</sup>.

Mae dros chwarter plant blwyddyn dderbyn (4-5 oed) yn Nhorfaen eisoes yn rhy drwm neu'n ordew (28.6%) sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 26.2% <sup>[12]</sup>.

Disgwylir i gyfraddau gordewder godi ymhellach mewn cenedlaethau i ddod, gan greu problem arwyddocaol ar gyfer iechyd a lles a chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae 4 o bob 5 o oedolion nad ydynt yn smygu yn Nhorfaen (80.7%) <sup>[11]</sup>.

### Gweithgaredd corfforol

Mae dros draean o boblogaeth Torfaen yn adrodd nad ydynt yn gorfforol weithgar; mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Unwaith eto, mae'n gysylltiedig ag amddifadedd; mae pobl ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn gorfforol anweithgar mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog uchel o gymharu â'u cymdogion llai difreintiedig <sup>[11]</sup>.

### Profiadau plentyndod andwyol

Mae cyfraddau PPA Cymru yn dangos bod y sawl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch mewn mwy o berygl o brofi PPA lluosog o gymharu ag ardaloedd llai difreintiedig. Tra nad oes data lleol ar gael ar hyn o bryd, byddai'n rhesymol tybio patrwm a chyfradd debyg o PPA ymhlith trigolion Torfaen. Sef bod ychydig dan hanner (47%) o oedolion yng Nghymru wedi dioddef o leiaf un PPA yn ystod eu plentyndod, ac yn arwyddocaol, bod 14 y cant wedi dioddef 4 neu fwy <sup>[13]</sup>.

## 3.2 MATERION CYMDEITHASOL ARWYDDOCAOL

Sector cyflogaeth mwyaf Torfaen yw'r sector cyhoeddus, lle mae traean yr holl drigolion yn gweithio, sy'n cyfateb i gyfartaledd Cymru. Mae gan Dorfaen hefyd gyfran arwyddocaol uwch o'r trigolion (16.1%) yn gweithio mewn gweithgynhyrchu na chyfartaledd Cymru (14.9 %) <sup>[14]</sup>.

Mae'r cyflog wythnosol ar gyfartaledd yn Nhorfaen yn is na Chymru ac yn arwyddocaol is na chyfartaledd y DU. Mae gwahaniaeth arwyddocaol hefyd rhwng cyflogau dynion a menywod <sup>[15]</sup>.

Mae Torfaen yn ardal a effeithir yn gynyddol gan raglen diwygio lles Llywodraeth y DU, oherwydd y nifer o bobl ar gyflog isel, contractau oriau isel ac mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn mynd i dlodi.

Mae mwy o ddibyniaeth ar fudd-daliadau hefyd yn Nhorfaen na Chymru ar gyfartaledd. Ym mis Chwefror 2016, roedd cyfradd pobl oedran gwaith yn hawlio budd-daliadau yn uwch yn Nhorfaen na Chymru, sef 17.0% a 15.2% yn eu tro (Adran Gwaith a Phensiynau) <sup>[3]</sup>.

O gymharu â chyfartaledd Cymru, mae gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen lefelau is o gymwysterau a sgiliau (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) <sup>[3]</sup>.

Mae mwyafrif y boblogaeth yn dibynnu ar y car preifat ar gyfer teithio i'r gwaith ac mae cymudo i mewn ac allan arwyddocaol i gael cyfle gwaith.

---

## 3.3 MATERION AMGYLCHEDDOL ALLWEDDOL

---

### 3.3.1 ADNODDAU NATURIOL

Mae gan Dorfaen adnoddau bioamrywiaeth cyfoethog ac amrywiol a choridorau, cynefinoedd bywyd gwyllt pwysig a chynefinoedd pontio megis Afon Lwyd a Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Mae safleoedd dynodedig cenedlaethol a lleol y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd o Bwysigrwydd i Natur.

Mae gan Dorfaen rwydwaith eang o fannau agored - mae 329 cilomedr o hawliau tramwy cyhoeddus, y rhan fwyaf yn llwybrau cerdded. At hyn mae 3,567 hectar o dir mynediad agored (lle gall bobl gerdded unrhyw le, yn hytrach na gorfod cadw at lwybrau penodol); mae 306 hectar o hwn yn goedlannau a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn golygu bod 29% o arwynebedd Torfaen yn dir mynediad agored <sup>[16]</sup>.

Mae coedlannau ar 15.8% o'r sir, sydd ychydig yn fwy na chyfartaledd Cymru, sy'n 14% <sup>[16]</sup>. Mae'r peryglon allweddol i'n coedlannau yn deillio o ddiffyg rheoli a phlannu dilynol (gan gynnwys coed trefol), pwysau datblygiad, rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol a newidiadau posibl yng nghyfansoddiad rhywogaethol oherwydd newid yn yr hinsawdd.

### 3.3.2 ANSAWDD YR AER

Mae gwaith monitro a wneir yn Nhorfaen yn dangos bod ansawdd yr aer yn parhau i gydymffurfio â holl safonau cenedlaethol, gyda chrynodebiadau holl llygrwyr a fesurir o fewn y cyfyngiadau a bennir. <sup>[17]</sup>. Er gwaethaf y newyddion da yma, dengys monitro bod rhai ardaloedd yn y Fwrdeistref yn profi cynnydd mewn llygredd o gerbydau, yn benodol yr ardal o gwmpas Ffordd Cwmbrân sy'n gysylltiedig â datblygiad De Sebastopol. Byddai'n deg dweud y gallai'r traffig ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad godi lefelau llygrwyr ar y pwynt monitro hwn uwchben safon genedlaethol.

### 3.3.3 SŴN

Mae dau ddarn o ffordd yn Nhorfaen wedi eu nodi fel 'Ardaloedd Cynllunio Blaenoriaeth Gweithredu ar Sŵn' <sup>[18]</sup>. Un yw'r ffordd ym meddiant yr Awdurdod Lleol sy'n mynd i fyny Snatchwood Road o Bontnewynydd i Stryd Fawr Abersychan. Yr ail yw'r gefnffordd genedlaethol sy'n mynd i fyny'r A4042, Heol

---

Brynbuga o'r Wain Y Clare i gyn-weithfeydd British Nylon. Mae cartrefi ar hyd y darnau hyn wedi eu modelu fel rhai sy'n dioddef lefelau arbennig o uchel o sŵn traffig.

### 3.3.4 GWASTRAFF

Roedd canran y gwastraff dinesig a anfonir i'w ail-ddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn Nhorfaen yn y cyfnod 2012-13 i 2015-16 yn parhau i fod yn is nac ar gyfer Cymru yn 2015-16, sef 57.4% a 60.2% yn eu tro (Llywodraeth Cymru) [3].

Fodd bynnag, mae effaith lawn cyflwyniad diweddar y Bin Tenau nawr yn cael ei themlo yn ystod 2016-17. Mae cyfradd ailgylchu Torfaen wedi cynyddu o 57% ar gyfer dau chwarter cyntaf 2015-16 i 66% yn 2016-17. Rhagwelir y bydd cyfradd ailgylchu'r flwyddyn lawn ar gyfer 2016-17 yn fwy na 63%.

### 3.3.5 LLIFOGYDD

Pe byddai digwyddiad llifogydd afonol yn digwydd, dim ond 0.2% o'r holl eiddo yn Nhorfaen sydd â risg llifogydd uchel, o gymharu â 1.1% ar gyfer Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru) [3].

---

## 3.4 LLES DIWYLLIANNOL

---

Canran y bobl 3 oed neu hŷn a allai siarad Cymraeg adeg y Cyfrifiad diwethaf (2011) oedd 9.8% (8,641), o gymharu ag 19.0% ar gyfer Cymru. Rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011 roedd gostyngiad o 1.3 pwynt canrannol yn y ganran o bobl 3 oed neu hŷn a allai siarad Cymraeg yn Nhorfaen; mae hyn yn cymharu â gostyngiad 1.8 y cant ar gyfer Cymru (Arolwg Cenedlaethol Cymru) [3].

# 4. MATERION ALLWEDDOL AR LEFEL ANHEDDIAD

---

Mae'r tablau isod yn crynhoi'r materion lles allweddol ar lefel anheddiad ac is ar gyfer Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân ac fe'u cymerir o rannau 2, 3 a 4 yr asesiad.

<b>Blaenafon</b> <b>Beth sy'n Dda – Materion Allweddol</b>	<b>Blaenafon</b> <b>Beth nad yw Cystal – Materion Allweddol</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Mae gan dri chwarter y trigolion iechyd da neu dda iawn.</li> <li>➤ Mae tai yn fwy fforddiadwy.</li> <li>➤ Mae dwy ran o dair yr aelwydydd mewn meddiant llawn neu gyda morgais.</li> <li>➤ Lefelau is o eiddo rhentu preifat cymdeithasol gyda gordyrru.</li> <li>➤ Lefelau uwch o drigolion mewn gwaith llawn-amser.</li> <li>➤ Bron i bum ran o trigolion mewn gwaith yn y maes gweithgynhyrchu.</li> <li>➤ Tirwedd yn adnodd ecolegol arwyddocaol yn cefnogi amrywiaeth o rywogaethau nodedig.</li> <li>➤ Tir mawn Blaenafon wedi ei gydnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig.</li> <li>➤ Safle Treftadaeth y Byd yn denu bron i hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn.</li> <li>➤ Lefelau is o grynodiadau ac allyriannau i'r aer.</li> <li>➤ Mae posibilïadau cynhyrchu ynni o ddŵr mwyngloddiau a hydro.</li> <li>➤ Teimlad cryf o ysbryd cymunedol.</li> <li>➤ Llawer o weithgareddau i drigolion hŷn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Disgwyliad einïoes is.</li> <li>➤ Cyfran uwch o fabanod pwysau isel adeg geni.</li> <li>➤ Cyfran uwch o drigolion gyda salwch cyfyngol hirdymor.</li> <li>➤ Cyfradd farwolaeth pob achos yn arwyddocaol uwch.</li> <li>➤ Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arwyddocaol uwch.</li> <li>➤ Bron i hanner yr holl aelwydydd mewn tlodi.</li> <li>➤ Un rhan o bump o drigolion yn hawlio rhyw fath o fudd-dal.</li> <li>➤ Bron i hanner aelwydydd yn byw ar incwm aelwyd is (0k - 20k).</li> <li>➤ Un rhan o bump o drigolion yn ddifreintiedig o ran incwm.</li> <li>➤ 85% o aelwydydd yn y bandiau treth cyngor isaf A a B.</li> <li>➤ Dros chwarter aelwydydd yn rhentu gan landlordiaid cymdeithasol.</li> <li>➤ Cyfran uwch o aelwydydd un person.</li> <li>➤ Seilwaith ynni ar gapasiti a byddai angen buddsoddiad arwyddocaol i'w wella.</li> <li>➤ Lefelau uwch o drigolion di-waith 16-24 oed neu ddi-waith tymor hirach.</li> <li>➤ Lefelau uwch o swyddi cymdeithasol-economaidd is (swyddi goruchwylio is ac arferol).</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyrhaeddiad addysgol is a llai o rai 18-19 oed y mynd i addysg uwch.</li> <li>➤ Lefelau uwch o gymhwysedd prydau bwyd am ddim.</li> <li>➤ Lefelau uwch o drigolion heb ddefnydd o gar neu fan.</li> <li>➤ Cymharol bellennig o gymharu ag aneddiadau eraill Torfaen.</li> <li>➤ Dibynnu ar aneddiadau cyffiniol am amrywiaeth a chyflenwad llawer o nwyddau.</li> <li>➤ Mae'r corysdd mawn yn cael eu diraddio.</li> <li>➤ Nifer o borwyr gweithredol yn dirywio.</li> <li>➤ Tanau ar y bryniau a gweithgareddau anghyfreithlon oddi ar y ffordd.</li> <li>➤ Rhannau o Flaenafon mewn parth llifogydd risg uchel.</li> <li>➤ Lefelau is o siaradwyr Cymraeg.</li> </ul>
--	--

Tabl 1: Materion Allweddol ar gyfer Blaenafon

<b>Pont-y-pŵl</b> <b>Beth sy'n Dda – Materion Allweddol</b>	<b>Pont-y-pŵl</b> <b>Beth nad yw Cystal – Materion Allweddol</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyfran is o fabanod gyda phwysau isel adeg geni.</li> <li>➤ Nifer uwch yn cymryd brechiadau plant yn Nwyrain a De Pont-y-pŵl.</li> <li>➤ Cyfradd arwyddocaol is o farwolaeth pob achos yn Nwyrain Pont-y-pŵl.</li> <li>➤ Cyfraddau cyffredinol is o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nwyrain a De Pont-y-pŵl ac eithrio byrgleriaeth.</li> <li>➤ Cyfradd uwch o weithwyr llawn-amser 16-74 oed.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Nifer is yn derbyn brechiadau yng Ngorllewin Pont-y-pŵl.</li> <li>➤ Cyfradd arwyddocaol uwch o farwolaethau pob achos yng Nghanol Pont-y-pŵl.</li> <li>➤ Lefelau uwch o drigolion yn methu ymgymryd â gweithgareddau bob dydd.</li> <li>➤ Cyfraddau uwch o fyrghleriaeth a niwed troseddol yng Nghanol Pont-y-pŵl.</li> <li>➤ Cyfraddau uwch o drosedd dreisgar, lladrad ac ymddygiad</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Un rhan o bump o'r holl swyddi mewn iechyd a gwaith cymdeithasol.</li> <li>➤ Parc Pont-y-pŵl yw un o'r ardaloedd mwyaf o fan gwyrdd ar gael yn Nhorfaen ac mae'n amddiffyn rhywogaethau megis y dyfrgi a'r cimwch crafanc wen.</li> <li>➤ Gwarchodfa natur leol yn hen chwarel galch Cwmyngsgou.</li> <li>➤ Mynediad at gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu.</li> </ul>	<p>gwrthgymdeithasol yng Ngorllewin Pont-y-pŵl.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Lefelau uwch yn hawlio budd-daliadau lles.</li> <li>➤ Bron i hanner aelwydydd yn byw ar incwm aelwyd is (0k - 20k).</li> <li>➤ Un rhan o bump o drigolion yn dioddef amddifadedd incwm.</li> <li>➤ Un rhan o bump o aelwydydd yn cael eu rhentu gan landlordiaid cymdeithasol.</li> <li>➤ Cyfradd uwch o weithwyr llawn-amser 75 oed a throsodd.</li> <li>➤ Lefelau uwch o drigolion sâl hirdymor ac anabl.</li> <li>➤ Swyddi sgiliau is mewn iechyd a gwaith cymdeithasol.</li> <li>➤ Cyrhaeddiad addysgol CA4 is.</li> <li>➤ Lefelau uwch o bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed.</li> <li>➤ Lefelau uwch o bobl heb gymwysterau.</li> <li>➤ Lefelau uwch o grynodiadau aer ac allyriant, yn enwedig yn Ne Pont-y-pŵl.</li> <li>➤ Lefelau is o siaradwyr Cymraeg.</li> </ul>
---	--

Tabl 2: Materion Allweddol ar gyfer Pont-y-pŵl

<b>Cwmbrân</b> <b>Beth sy'n Dda - Materion Allweddol</b>	<b>Cwmbrân</b> <b>Beth nad yw Cystal - Materion Allweddol</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyfran is o fabanod pwysau isel adeg geni nac ar draws Cymru.</li> <li>➤ Cyfraddau marwolaeth pob achos is yn Nwyrain Cwmbrân a De Cwmbrân.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Amrywiad arwyddocaol yn iechyd a lles trigolion gwahanol ardaloedd Cwmbrân.</li> <li>➤ Cyfradd marwolaeth pob achos uwch na chyfradd Cymru.</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cyfraddau is o absenoldeb cyson (ysgolion) na Chymru.</li> <li>➤ Cyfradd uwch o weithwyr llawn-amser 16 i 74 oed a Chymru.</li> <li>➤ Mae gan Ddwyrain Cwmbrân, Ddeddwyrain Cwmbrân a Gorllewin Cwmbrân grynodiadau cymharol isel o amddifadedd fel y caiff ei fesur gan Fynegai Amddifadedd Cymru.</li> <li>➤ Llawer o ardaloedd cymunedol yng Nghwmbrân gyda sgôr risg llifogydd isel.</li> <li>➤ Mae gan y rhan fwyaf o drigolion Cwmbrân fynediad at amrywiol wasanaethau mewn amser cymharol fyr ar gludiant cyhoeddus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Pontnewydd 1 a Chwmbrân Uchaf 1 yn y 10% o AGEHI mwyaf difreintiedig Cymru.</li> <li>➤ Cyfraddau byrgleriaeth a niwed troseddol, trosedd dreisgar, lladrad ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghwmbrân Ganol.</li> <li>➤ Lefelau uwch yn hawlio budd-daliadau lles na Chymru.</li> <li>➤ Canran aelwydydd sy'n cael eu cyfrif fel rhai 'mewn tloidi' yn uwch na chyfartaledd Cymru.</li> <li>➤ Cyrhaeddiad addysgol CA4 is na Chymru.</li> <li>➤ Lefelau uwch o ddisgyblion nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed na ffigur Cymru.</li> <li>➤ Lefelau uwch o bobl heb gymwysterau na chyfartaledd Cymru.</li> <li>➤ Lefelau uwch o grynodiadau aer ac allyriant.</li> </ul>
--	--

Tabl 3: Materion Allweddol ar gyfer Cwmbrân.

## 5. HERIAU

Wrth asesu lles ein cymunedau rydym wedi ystyried amrywiol heriau a chyfleoedd hirdymor sy'n debygol o gael effaith ar Dorfaen dros y 20 i 25 mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau demograffig, materion iechyd, newid yn yr hinsawdd, diogelwch materol, diogelwch a chostau ynni, diogelwch dŵr, anghenion y gweithlu i'r dyfodol ac effeithiau cymdeithasol – gan gynnwys tloidi tanwydd a bwyd <sup>[19]</sup>.

Mae llawer o'r rhain yn faterion byd-eang a fydd yn effeithio'r byd cyfan ynghyd â chael effaith ar lefel leol. Mae'n bwysig ein bod yn gweithredu yn y tymor hir i ymateb i'w heffeithiau ar lefel leol, a sicrhau bod ein cymunedau a'r economi lleol yn medru sefyll yn fwy cadarn yn erbyn newid. Dyma pam y mae mabwysiadu dull seiliedig ar le yn hollbwysig.

### 5.1 Amcanestyniadau demograffig



Mae amcanestyniadau yn dangos y bydd y ganran o boblogaeth gyfan Torfaen sydd yn 65 a throsodd, erbyn 2039, wedi codi o 20.1% yn 2016 i 28.3% a rhagwelir y bydd nifer trigolion Torfaen sy'n 85 a throsodd yn mwy na dyblu yn y 23 blynedd nesaf, o 2,372 yn 2016 i 5,595 in 2039; cynnydd o 136% [20].

Rydym yn gwybod bod yr heriau hyn yn golygu y bydd cynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, gyda niferoedd cynyddol o bobl hŷn angen gwasanaethau gofal a iechyd sylfaenol.

Mae'r amcanestyniadau diweddaraf hefyd yn dangos gostyngiad o 9.6% yn nifer y plant a phobl ifanc 0 i 25 oed dros y 23 blynedd nesaf, o 28,010 i 25,330. Mae hyn yn debyg i'r amcanestyniadau ar gyfer Cymru [20].

---

## 5.2 Anghydraddoldeb iechyd

---

Mae byw bywyd iach yn caniatáu i ni gyflawni ein potensial, cyflawni ein dyheadau addysgol a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Cymru [21]. I'r gwrthwyneb, gall yr amodau lles ehangach hynny fod o fudd arwyddocaol i iechyd, neu amharu arno.

Bydd gwella iechyd ein cymunedau, ar draws cyrsiau iechyd, yn helpu i adeilad sylfaen gref ar gyfer lles cenedlaethau'r dyfodol a bydd y camau a fydd yn ein harwain yno yn cael effaith llawer ehangach ar les na dim ond lleihau achosion o afiechyd, eu difrifoldeb a marwolaeth gynamserol.

Y darlun mawr yn Nhorfaen, fel yng ngweddill Cymru, yw bod disgwyliad einioes a chyfraddau marwolaeth gynamserol yn gwella. Serch hynny, islaw'r darlun hwnnw o wella, mae anghydraddoldebau difrifol mewn iechyd ac afiechyd ar y cyd â phobl yn byw yn hirach gyda mwy o amrywiaeth a chymhlethdod o gyflyrau iechyd cronig. Caiff hyn effaith arwyddocaol ar bobl, cymunedau a chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd a gofal, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dengys y data mai ein cymunedau mwyaf difreintiedig o ran iechyd yw Trefethin 1 (rhif 22), Cwmbrân Uchaf 1 (rhif 39), Blaenafon 2 (rhif 78) a Phontnewydd 1 (rhif 97) allan o 1909 AGEHI ledled Cymru, a gellir cyfatebu pob un gyda lefelau amddifadedd cyffredinol [7].

---

## 5.3 Heriau economaidd

---

Mae gan Dorfaen gyfran uwch o drigolion sydd wedi eu cyflogi yn y sector cyhoeddus a gweithgynhyrchu. Rydym hefyd yn gwybod bod canrannau mwyaf trigolion Torfaen yn gweithio yng Nghwmbrân, ac yna Pont-y-pŵl, yna Casnewydd, a bod cyflog wythnosol ar gyfartaledd yn is na chyfartaledd Cymru, ac yn arwyddocaol is na chyfartaledd y DU, a bod dynion yn ennill cyflog arwyddocaol uwch na menywod. At hyn, o gymharu â chyfartaledd Cymru, mae gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen lefelau is o gymwysterau a sgiliau.

I gynllunio ar gyfer lles ein cymunedau i'r dyfodol, rhaid i ni hefyd ystyried ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar yr economi yn lleol.

### 5.3.1 MESURAU LLYMDER

Mae effaith mesurau llymder parhaus yn golygu y bydd mwy o doriadau i'r sector cyhoeddus, ar adeg pan rydym yn disgwyl i'r galw am rai gwasanaethau gynyddu. Mae gan fesurau llymder i'r dyfodol hefyd y potensial i gael yr effaith fwyaf ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

### 5.3.2 CYFLOGAETH I'R DYFODOL

Er mwyn symud tuag at gymuned fwy cynaliadwy erbyn 2035, sy'n diwallu galw lleol, mae astudiaeth Deep Place Pont-y-pŵl yn ddiweddar yn argymhell datblygu'n gynyddol leol yr amrywiaeth o sectorau sy'n syrthio o fewn yr economi sylfaenol h.y. bwyd, ynni a chadwraeth ynni, gofal, yr amgylchedd ac yn y blaen. Rydym yn gwybod bod cenedlaethau'r dyfodol yn mynd i fod â galw am y sectorau hyn yn barhaus gan eu bod yn sylfaenol i fywyd bob dydd.

Amlygodd yr astudiaeth hefyd beryglon anwybyddu gweithgaredd economaidd presennol ac efallai colli cyfle i gefnogi ei ddatblygiad. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd yn helpu sicrhau bod ein cymunedau a'r economi lleol yn fwy gwydn yn erbyn siociau allanol, ynghyd â diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n debyg y bydd datblygiadau technolegol yn y dyfodol hefyd yn newid yr hyn y bydd pobl yn ei wneud o ran cyflogaeth yn y dyfodol, ac yn cyflwyno cyfleoedd pwysig i gefnogi a chryfhau'r economi lleol ledled Torfaen. Mae datblygiadau technolegol hefyd yn debygol o gyfrannu tuag at fodel mwy 'cylchol' gyda llai o ecsbloetio cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer ein cymunedau.

---

## 5.4 Heriau amgylcheddol

---

Ynghyd â chefnogi ein hanghenion sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a darpariaeth adloniadol, mae gwasanaethau llai gweladwy hefyd yn cael eu darparu gan ein hadnoddau naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys cadw dŵr, cefnogi trychfilod peillio a storio carbon. Lle mae adnoddau naturiol dan bwysau, mae hyn yn cynrychioli perygl i les hirdymor. Mae datblygu (tai a seilwaith), amaethyddiaeth, diwydiant, hamdden ac adloniant a chynhyrchu ynni oll yn rhoi pwysau ar ein hadnoddau naturiol. Mae patrymau defnydd presennol yn dangos ein bod yn defnyddio mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r byd.

Yr ôl troed ecolegol i Dorfaen yn 2011 oedd 3.13 hectar byd-eang fesul person; mae hyn yn cymharu â 3.30 hectar byd-eang ar gyfer pob person yng Nghymru. Pe byddai pawb yn y byd yn fyw fel ni yn Nhorfaen, byddai angen 3.13 planed i'n cynnal ni i gyd. Mae angen cyrraedd sefyllfa o fyw un blaned fel nad ydym yn defnyddio'r adnoddau y bydd cenedlaethau'r dyfodol eu hangen i'w cynnal nhw (Llywodraeth Cymru) <sup>[3]</sup>.

Mae gwella dealltwriaeth o werth gwirioneddol ein hadnoddau naturiol, yn arwain at well amddiffyniad a rheolaeth, yn golygu y byddwn yn medru sicrhau bod anghenion mwyaf sylfaenol cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu diwallu. Bydd yn haws i ni ddelio â heriau megis newid yn yr hinsawdd, a gweithredu'n gadarnhaol yn lleol i helpu i ddelio â'r niwed y mae ein penderfyniadau yn ei wneud i'r amgylchedd a lles cenedlaethau nawr ac i'r dyfodol.

---

## 5.5 Newid yn yr hinsawdd

---

Mae ein hinsawdd eisoes yn newid a bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Bydd hyn yn effeithio ein cymunedau, y gwasanaethau rydym yn eu cyflenwi, ein hasedau a'r seilwaith.

Mae amcanestyniadau (yn seiliedig ar gyfartaleddau) yn awgrymu y bydd Torfaen yn debygol o gael hafau sychach; gaeafau cynhesach, gwlypach; lefelau dŵr daear is; llai o eira a rhew a digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach. <sup>[22]</sup>

Mae'r swyddfa Feteorolegol hefyd wedi cynhyrchu dadansoddiad sy'n pwysleisio'r angen i baratoi ar gyfer hafau gwlyb a gaeafau oer trwy gydol y ganrif hon <sup>[23]</sup>.

Mae Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd 17 y DU yn adnabod 56 o risgiau mewn pum maes allweddol <sup>[24]</sup>:

---

- Amgylchedd naturiol ac asedau naturiol
- Seilwaith
- Pobl a'r amgylchedd adeiledig
- Busnes a diwydiant
- Dimensiwn rhyngwladol

I sicrhau lles hirdymor ein cymunedau mae angen i ni ddechrau paratoi'n lleol ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd. Mae angen i ni hefyd gymryd camau cadarnhaol i helpu i gyfyngu'r niwed y mae ein penderfyniadau lleol ni yn ei gael ar newid amgylcheddol byd-eang. Fe cyrff cyhoeddus, mae gennym ddyletswydd i gyfyngu effaith ein penderfyniadau ar yr amgylchedd.

---

## 5.6 Ynni

Mae gan y cyfyngiad ar argaeledd olew a chynnydd mewn prisiau olew yn y dyfodol y potensial o gael effaith fawr ar fusnesau (cost deunyddiau, defnyddio ynni a chostau cludo) ac ar aelwydydd (cost nwyddau, tlodi tanwydd a chost cludiant) <sup>[25]</sup>, ac ar ein penderfyniadau economaidd nawr ac yn y dyfodol.

---

## 5.7 Y galw am dai

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dyrannu ar gyfer darparu 4700 o gartrefi ychwanegol yn Nhorfaen rhwng 2006 a 2021. Ym mis Ebrill 2016 roedd 1888 o dai annedd wedi eu cyflawni gan adael gofyniad am 2865 arall hyd at 2021 (yn caniatáu am ddymchweliadau wedi acriwio) <sup>[26]</sup>.

Mae'r AMDL yn dangos, yn seiliedig ar amcanestyniadau presennol, y bydd Torfaen angen rhyw 200 o unedau fforddiadwy ychwanegol o dai bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf (2015– 2020) i ddiwallu'r angen <sup>[5]</sup>.

At hyn, gellid gwella llawer o'r stoc dai yn Nhorfaen o ran arbed ynni, i greu cartrefi cynhesach, sy'n rhatach i'w rhedeg ac sy'n cynhyrchu llai o allyriant carbon.

---

# 6. Bylchau

---

Mae'r asesiad hwn yn adroddiad cymhleth yn cynnwys pum rhan sydd gyda'i gilydd yn rhoi darlun o les Torfaen a'i chymunedau. Mae llawer o bobl wedi cyfrannu at yr asesiad, gan ddarparu ystadegau a naratif, barn trwy arolygon a sesiynau cymunedol, ymdriniaeth a chyngor. Mae yna serch hynny fylchau yn ein gwybodaeth. Medrwn lenwi rhai bylchau yn yr ychydig fisoedd nesaf gan fod data ychwanegol ar y ffordd, ond nid yw wedi ei ddadansoddi eto i'w gynnwys yma. Bydd bylchau eraill angen gwaith yn y blynyddoedd i ddod, gyda thrafodaethau ar bwy a fedr ddarparu'r data coll, y posibiladau i fonitro, casglu ac adrodd ar ddata o'r fath. Bydd peth o hwn ar lefel genedlaethol a pheth ar lefel ranbarthol neu leol.

Mae'r agenda datblygu data, yn y cyd-destun cenedlaethol, yn lleihau gydag uno arolygon ac ymchwil cymdeithasol, eu gwneud gyda llai o bobl ac yn llai aml. Mae hyn ar adeg pan rydym eisiau gwybod mwy am ein poblogaeth, ar lefel ardal is, yn amserol a beth sy'n cefnogi lles. Mae angen cael sgwrs ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i sicrhau ein bod yn medru cadw i fyny â'r materion hyn.

Bydd angen ystyried sgiliau a gwybodaeth yn y dyfodol i ymgymryd ag asesiadau cymhleth. Mae sicrhau bod arbenigedd digonol a'r gallu i dderbyn a dadansoddi data yn lleol, croes-gyfeirio a chadarnhau'r canlyniadau, yn faes i'w arolygu er mwyn deall y cyfyngiadau, y capasiti a'r galluoedd sydd ar gael ar draws y BGC cyfan ar gyfer gwaith fel hyn yn y dyfodol.

Mae'r bylchau a gydnabyddir ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Dadansoddiad Gwent Ddiogelach – sy'n cael ei ddiweddarau i'w ryddhau'n gynnar yn 2017 pan fydd data a'r naratif ar drosedd a diogelwch yn ychwanegu at yr wybodaeth sydd eisoes yn yr asesiad drafft hwn, a byddwn yn ail-ystyried y data i weld os oes unrhyw bryderon cydlyniant cymunedol yn ymddangos.
- Diffyg gwybodaeth ddiwylliannol – eisoes wedi adnabod pobl i weithio ar a gwella hyn dros y 12 mis nesaf.
- Diffyg gwybodaeth am chwaraeon – eisoes wedi adnabod pobl i weithio ar a gwella hyn dros y 12 mis nesaf.
- Gwybodaeth am, a mesur iechyd ac ymddygiad risg mewn beichiogrwydd ac i rieni sy'n effeithio blynyddoedd cynnar cenedlaethau'r dyfodol.
- Mwy o wybodaeth ar fynediad a chydarddoldeb mynediad at wasanaethau iechyd o safbwynt cymunedol.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar lifogydd afonol ond nid llifogydd dŵr wyneb – rydym wedi adnabod pwy sydd ei angen i weithio i lenwi'r bwlch hwn.

- Nid oedd materion iechyd yn amlwg yn yr ymatebion i'r holiadur lles, er gwaethaf cydweithwyr iechyd yn dweud bod pobl yn dweud wrthyn nhw bod cael mynediad at apwyntiad a gwasanaethau yn broblem iddynt. Gwneir gwaith pellach gyda chymunedau er mwyn cael gwell gwybodaeth i'r BGC at y dyfodol.
- Gwybodaeth ar lythrennedd iechyd yn ein cymunedau, yn enwedig ardaloedd lle mae amddifadedd.
- Mae angen gwaith pellach o ran defnyddio pobl hŷn fel ased mewn cymunedau lleol, ynghyd â gwaith i gadw pobl yn annibynnol yn hirach wrth iddynt heneiddio. Gyda lefelau uchel o salwch a chyflyrau cronig yn cael eu hadnabod yn yr asesiad ar gyfer llawer o'n cymunedau, bydd hyn yn parhau i fod yn her i'r holl wasanaethau cyhoeddus.
- Nid oedd problemau addysg, cyflog isel / oriau isel a phryderon cyflogaeth eraill yn amlwg yn yr ymatebion i'r holiadur lles, er gwaethaf ein dealltwriaeth o'r economi lleol a'r effaith ar fywydau pobl. Efallai yr hoffai'r BGC ymgymryd â gwaith pellach gyda chymunedau i gael deall y materion hyn yn well at y dyfodol.
- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiwygio yn 2017 a bydd gwybodaeth bellach o'r gwaith hwn yn cael ei bwydo i mewn i'r asesiad hwn wrth iddi ddod ar gael.
- Nid oes gwybodaeth ar Brofiadau Plentyndod Andwyol ar gael ar lefel leol. Mae angen trafodaethau pellach i geisio ffyrdd o wella hyn.
- Nid yw'r Asesiad Anghenion Poblogaeth i gael ei gyhoeddi tan y gwanwyn 2017, ac felly tra bod gwybodaeth newydd wedi ei rhannu a'i chymryd i ystyriaeth yn yr asesiad drafft hwn, ni fydd y goblygiadau llawn ar gael nes caiff yr asesiad terfynol ei lunio ym mis Mawrth 2017.
- Rydym wedi mapio rhai asedau cymunedol ond mae mwy i'w wneud yn y maes hwn dros y 12 mis nesaf.
- Mae angen i ni hefyd ddeall yn llawn yr hyn y mae pobl yn ein cymunedau yn ei wneud eisoes a'r hyn y medrent ei wneud / y meant yn barod i'w wneud i weithio gyda'r BGC i wella lles lleol.

Efallai y bydd bylchau eraill yn cael eu hadnabod yn ystod y cyfnod ymgynghori ac wrth baratoi'r cynllun lles. Bydd yr asesiad hwn yn ddarn o waith 'byw' a bydd data newydd yn cael ei ychwanegu wrth iddo ddod ar gael. Hysbysir y BGC fel y daw unrhyw wybodaeth newydd i'r golwg sy'n newid y darlun ar gyfer cymuned benodol neu Dorfaen gyfan a'r cyfeiriad y mae'r BGC yn ei gymryd gyda'i raglen gyflawni.

## 7. Casgliad

I sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol, mae angen i'r BGC feddwl at y dyfodol a rhagweld problemau sy'n debygol o godi, yn hytrach na delio gyda nhw pan fydd yn rhy hwyr ac, yn bwysig, gwybod beth yw'r problemau tebygol hyn.

Bydd angen i ni fod yn uchelgeisiol i wella lles a gweithio gyda'n gilydd o ran cynllunio a chyflenwi, mabwysiadu dull rhwystrol ac ymyrraeth gynnar er mwyn cefnogi ein cymunedau orau.

Er y bydd camau y gellir eu cymryd ac a fydd yn cael eu cymryd yn y tymor byr, mae lles cyffredinol, yn enwedig yr hyn sy'n deillio o anghydraddoldeb, yn gofyn am ymrwymiad mwy hirdymor. Rhaid i ni edrych 20 i 25 mlynedd i'r dyfodol a phennu ein camau i wella lles yn ein cymunedau.

Mae angen i ni ganolbwyntio ar les ar gyfer rhannau mwyaf difreintiedig ein cymunedau, ac ar yr un pryd, adeiladu ar yr asedau positif niferus sydd gan Dorfaen. Mae lles holl drigolion Torfaen yn gofyn i'w chyrrff cyhoeddus chwarae rôl lawn ac actif o ran creu cymunedau mwy cynaliadwy yn gymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae hyn yn golygu bod angen i ni feddwl a gweithio'n wahanol, gyda'n gilydd mewn partneriaeth â'n cymunedau.

Rydym yn gwybod y bydd delio â'r materion sy'n wynebu ein cymunedau yn waith hirdymor. Caiff yr asesiad hwn ei ddefnyddio gan y BGC i bennu ei amcanion i wella lles yn Nhorfaen a datblygu ei gynllun lles cyntaf erbyn mis Mai 2018. Bydd cyrrff cyhoeddus unigol hefyd yn defnyddio'r asesiad hwn wrth bennu eu hamcanion lles a'u cynlluniau corfforaethol eu hunain. Caiff yr asesiad ei ddiweddarau'n rheolaidd; wrth i wybodaeth newydd ddod i'r golwg caiff ei chofnodi a'i dadansoddi a chaiff y BGC ei hysbysu o newidiadau dros amser er mwyn caniatáu datblygu'r gweithredoedd gorau i'w rhoi ar waith, gan wneud y mwyaf o'n hadnoddau ac asedau'r gymuned.

## CYFEIRIADAU

- [1] Joseph Roundtree Foundation (2016) Prosperity without poverty: a framework for action in Wales.
- [2] Llywodraeth Cymru (2014-15), Arolwg Cenedlaethol Cymru.
- [3] Uned Data Cymru (2016). Deall Data Cryno Lles Lleol, Hydref 2016.
- [4] Data systemau Heddlu Gwent 2016
- [5] Asesiad Marchnad Dai Leol Torfaen (LHMA) 2016.
- [6] Hometrack Tachwedd 2016
- [7] Llywodraeth Cymru (2014), Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- [8] StatsCymru 2016, Cyfrifiad Blynyddol Lefel Disgyblion (PLASC)
- [9] Arsyllfa Iechyd Cymru, gan ddefnyddio PHM ac MYE (ONS), WHS a WIMD 2014 (Llywodraeth Cymru).
- [10] Arsyllfa Iechyd Cymru, gan ddefnyddio StatsCymru.
- [11] Arolwg Iechyd Cymru (WHS) 2014/15. Arsyllfa Iechyd Cymru.
- [12] Rhaglen Mesur Plant (CMP) Cymru 2014/15.
- [13] Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru – Astudiaeth Profiadau Plentyndod Andwyol (ACE). Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population – 2015.
- [14] Cyflogaeth gweithlu gan Ffynhonnell Diwydiant KS605EW, Cyfrifiad 2011.
- [15] Cyflog wythnosol gros dynion v menywod. Ffynhonnell: arolwg blynyddol yr ONS o oriau ac enillion - dadansoddiad gweithle, 2015, trwy gyfrwng NOMIS.
- [16] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Gwybodaeth Amgylcheddol ar gyfer Asesiadau Lles. CNC. Hydref 2016.
- [17] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (2016), Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer ar gyfer 2016. Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd 2016.
- [18] Cynllun gweithredu ar sŵn ar gyfer Cymru 2013–2018 Rhagfyr 2013. Llywodraeth Cymru.



- [19] Netherwood, A (2008) Future Trends and Horizon Scanning. CLILC: Caerdydd.
- [20] Amcanestyniadau seiliedig ar boblogaeth (2014), Llywodraeth Cymru.
- [21] Llywodraeth Cymru (2016) Symud Cymru Ymlaen 2016-2021.
- [22] *Amcanestyniadau Hinsawdd y DU 2009 (UKCP09)*.  
<<http://ukclimateprojections.metoffice.gov.uk/21708>>
- [23] Met Office Hadley Centre – Too cold, too hot, too wet, too dry: Drivers and impacts of seasonal weather in the UK – Mawrth 2014
- [24] Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (2016). Adroddiad Tystiolaeth 2017 Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd. Crynodeb ar gyfer Cymru.
- [25] CLILC - Cenhedlaeth 2050 Gwell penderfyniadau hirdymor : Adnodd i Lywodraeth Leol (2014). Cynhyrchwyd gan Netherwood Sustainable Futures a PwC Gorffennaf 2014.
- [26] Cynllun Datblygu Lleol, Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.
-